



Cylchlythyr ERAMMP - Hydref 2021

Croeso i Gylchlythyr hydref 2021 o Raglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP). Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu newyddion am gynnydd yr Arolwg Maes Cenedlaethol yn 2021, ac yn edrych ymlaen at ein cynlluniau ar gyfer 2022.


Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP 2021

Mae tymor Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP 2021 wedi'i orffen. DIOLCH i bawb a gymerodd ran. Eleni ymwelodd ein 27 syrfewr maes â dros 400 o ffermydd a daliadau tir ledled Cymru. Ni allem fod wedi gwneud hyn heb gymorth a chydweithrediad cymaint o ffermwyr, tiffeddianwyr a rheolwyr a oedd yn caniatáu mynediad i'w tir ac a oedd yn cynorthwyo ein timau arolwg.

Beth yw'r Arolwg Maes Cenedlaethol?

Mae ERAMMP yn cynnal Arolwg Maes Cenedlaethol, a reolir gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH), i asesu effeithiau cynllun fferm gynaliadwy Glastir ac adrodd ar dueddiadau cenedlaethol. Mae arolygu tir y tu mewn a'r tu allan i Glastir yn hanfodol i asesu effaith y cynllun.

Mae Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP yn cofnodi ac yn asesu cyflwr cynefinoedd, coetiroedd, gwrychoedd, priddoedd, planhigion, nentydd, pyllau, nodweddion hanesyddol a hawliau tramwy cyhoeddus. Mae hefyd yn cofnodi nifer a rhywogaethau adar a phryfed peillio unigol. Yn ystod 2021 a 2022, bydd yn arolygu 130 sgwâr 1km a ddewiswyd. Gan adeiladu ar arolwg Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP), a gynhaliwyd yn 2013-2016, a chynlluniau monitro cenedlaethol eraill megis yr [Arolwg Cefn Gwlad](#) a'r [Arolwg Adar Bridio](#), gallwn ni weld pa



Timau Arolygu	Mis	Blwyddyn	Amser y Dydd
Botanegol	Mai – Medi	2021-22	8am - 6pm
Coetir a Nodweddion Hanesyddol	Mai – Hyd.	2021-22	8am - 6pm
Adar	Ebr. – Mai	2022	Bore cynnar
Peillwyr	Gor.-Awst	2021	9am - 6pm
Dŵr croyw	Meh.-Awst	2021	8am-6pm

effaith y mae'r Cynllun Glastir yn ei chael ar gefn gwlad. Mae gan yr Arolwg Maes Cenedlaethol sawl arolwg arbenigol unigol, sy'n cofnodi data yn yr un lleoliad. Mae hyn yn galluogi dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngweithiadau rhwng adnoddau naturiol megis bioamrywiaeth planhigion, niferoedd adar a pheillwyr, pridd a dŵr. Mae'r arolygon arbenigol yn digwydd ar wahanol adegau, e.e. yn y misoedd cynhesach, arolygir pryfed peillio. Mae'r tabl yn rhoi dadansoddiad o'r arolygon a'r amseriadau unigol

Sylwer: Nid yw'r Arolwg Maes Cenedlaethol yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chydymffurfedd na'r broses arolygu ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol neu Glastir ac ni fydd yn effeithio ar eich taliadau cyfredol.

Hyfforddiant, cerdded, cyrif a samplu: tymor Arolwg Maes Cenedlaethol 2021

Mae llawer iawn o arbenigedd, amser a gwytnwch yn cyfrannu at wneud yr Arolwg Maes Cenedlaethol yn llwyddiannus.

Mae llawer iawn o waith cynllunio ac ymdrech yn cyfrannu at sicrhau bod ein harolygon gwyddonol yn gywir. Fe wnaeth wythnosau o hyfforddiant a llawlyfrau manwl baratoi'r timau o syrfewyr i sicrhau eu bod yn barod i fynd unwaith y byddai cyfyngiadau cloi Llywodraeth Cymru wedi lleihau i lefel rhybudd 3. Ym mis Mai, cychwynnodd chwe thîm o ddau fotanegydd yr arolwg. Dilynodd tri syrfewr coetir ac un syrfewr dŵr croyw ym mis Mehefin, a dechreuodd 11 syrfewr peillwyr eu harolwg ym mis Gorffennaf.

Fe wnaeth y timau'r arolwg botanegol ymweld â 74 sgwâr 1km. Bydd y data a gasglwyd yn ein helpu i asesu cyflwr cynefinoedd cyffredin, a chynefinoedd â blaenoriaeth megis Glaswellt Rhostiroedd Porffor a Phorfa Brwyn. Gallwn ni hefyd asesu newid ers i ni arolygu ddiwethaf (2013-2016) yn seiliedig ar bresenoldeb neu absenoldeb rhai rhywogaethau planhigion.

Roedd timau'r arolwg coetir ar gyfartaledd yn gwneud 15,000 cam y dydd wrth iddynt gerdded ar draws 100 sgwâr 1km yn mapio coetir, nodweddion llinellol (e.e. gwrychoedd), coed, a nodweddion tirwedd eraill. Fe wnaethon nhw gofnodi 1,185 o hen goed, gyda 28% ohonynt yn Dderw, 16% yn Onn, 5% yn ddraenen wen, ac roedd gan sycamorwydd a helyg ddigonedd o 4% yr un. Cofnodwyd cyfanswm o 52 o rywogaethau.



Rhannodd timau'r arolwg botanegol a choetir y dasg o samplu pridd, gan gymryd craidd pridd 15cm o ddyfnder o bum lleoliad ym mhob sgwâr 1km. Y gaeaf hwn bydd y creiddiau pridd hyn yn cael eu dadansoddi gan UKCEH ar gyfer pH, alcalinedd, deunydd organig, carbon, a nitrogen a ffosfforws. Byddwn ni'n defnyddio'r data newydd hyn i fesur newidiadau yn iechyd y pridd.

Fe wnaeth **timau'r arolwg peillwyr** gofnodi gwenyn, pryfed hofran a gloÿnnod byw ym mis Gorffennaf ac Awst. Fe wnaeth y syrfewyr gwmpasu 240 km gan adrodd am 29,673 o bryfed unigol, gan gynnwys 4,213 o gacwn.

Fe wnaeth **tîm yr arolwg dŵr** crywsamplu 38 o byllau a 55 o nentydd, wrth asesu'r cyflwr ar hyd 27.5 km o nentydd. Dadansoddir samplau dŵr i nodi macro-infertebratau a diatomau i roi arwydd o ansawdd dŵr.

Mae **tîm Rheoli Ansawdd (QC)** hefyd wedi nodi unrhyw faterion ansawdd posibl trwy ail-arolygu 10% o'r arolwg er mwyn mesur cysondeb a dibynadwyedd y gwaith a wneir. Mae hyn yn sicrhau bod gennym hyder yng nghanlyniadau'r arolwg.

Nawr mae ein dadansoddwyr data yn casglu'r holl ddata at ei gilydd, gan wirio ansawdd a chyfuno â data blaenorol GMEP i werthuso llwyddiant y cynllun Glastir.

Byddwn ni'n rhannu mewnwelediadau pellach yn ein cylchlythyr nesaf a thrwy adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan ERAMMP, www.erammp.wales.



I grynhoi, nodau Glastir yw brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gwella ansawdd dŵr a lleihau peryglon llifogydd, cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd, amddiffyn tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol, gwella mynediad i gefn gwlad, helpu i wydroi dirywiad bioamrywiaeth frodorol Cymru a chefnogi creu a rheoli coetir.

Edrych ymlaen at Arolwg Maes Cenedlaethol 2022

Dyma ni'n mynd eto!

Mae ein timau eisoes yn paratoi ar gyfer tymor arolwg 2022 gan ddechrau gyda'r arolwg adar ym mis Ebrill. Byddwn ni mewn cysylltiad â ffermwyr a pherchnogion tir ym mis Rhagfyr gyda rhagor o wybodaeth ac i ofyn am ganiatâd mynediad i safleoedd arolygu. Ni fydd unrhyw leoliadau penodol o safleoedd arolygu yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn 2023.

Hefyd yn ERAMMP...

Elfennau craidd eraill ERAMMP yw modelu a darparu tystiolaeth.

Mae rhaglenni cyfrifiadurol arbenigol yn **Modelu** newidiadau posibl i amgylchedd naturiol Cymru dros amser yn seiliedig ar wahanol gamau y gallem eu cymryd nawr. Mae gwyddonwyr a datblygwyr meddalwedd ERAMMP yn creu system sy'n cymryd canlyniadau llawer o wahanol fodelau cyfrifiadurol arbenigol ac yn eu cysylltu gyda'i gilydd er mwyn archwilio effeithiau gwahanol senarios. Mae'r '[Platfform Modelu Integredig](#)' hwn yn cefnogi datblygu Cynllun Fferm Gynaliadwy newydd Llywodraeth Cymru.

Gwneir **darpariaeth tystiolaeth** i Lywodraeth Cymru trwy gyfres o adolygiadau a dadansoddiadau gwyddonol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau polisi allweddol. Mae adroddiadau tystiolaeth diweddar yn cynnwys yr [Adolygiad Tystiolaeth Coedwigoedd Cenedlaethol](#), [Pecyn Tystiolaeth SFS \(Cynllun Fferm Gynaliadwy\)](#), [adolygiad Ymwrthedd Gwrthficrobaidd \(AMR\)](#) a gwerthusiad o [wobr adfer Natura 2000 \(N2K\)](#).

Mae'r holl adroddiadau tystiolaeth hyn a llawer mwy o ddogfennau a gynhyrchwyd fel rhan o ERAMMP (gan gynnwys y dulliau arolwg maes) ar gael i'r cyhoedd ar wefan ERAMMP www.erammp.wales.

Gwybodaeth bellach

Chwilio am ddata 'GMEP' yn yr EIDC
catalogue.ceh.ac.uk/eidc/documents

Gwefan ERAMMP
erammp.wales/en

Arolwg Cefn Gwlad uk-scape.ceh.ac.uk/our-science/projects/countryside-survey

UKCEH a chronfa Llywodraeth Cymru ERAMMP.